



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Deganwy
Rhodfa'r Parc
Deganwy
Conwy
LL31 9YB**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2012

Cyd-destun

Mae Ysgol Deganwy yn nhref Deganwy, ac fe gaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Conwy. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw yn y dref neu'r ardal gyfagos. Nid yw dalgyloch yr ysgol yn arbennig o freintiedig na difreintiedig.

Mae 298 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, yn cynnwys 35 sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu ychydig dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn 11 dosbarth, yn cynnwys uned iaith. Mae grwpiau oedran cymysg mewn pedwar dosbarth. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n medru'r Gymraeg fel mamiaith, ac mae 10 ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Daw pedwar y cant o ddisgyblion o gymuned ethnig leiafrifol.

Mae gan un deg tri y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn yn sylweddol is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru gyfan. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 13% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Mae gan nifer fach iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Deganwy yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,665 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £12,262 a'r isafswm yw £3,081. Mae Ysgol Deganwy yn safle 45 o'r 60 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da mewn llawer o agweddau ar eu gwaith;
- bod ansawdd cyffredinol yr addysgu'n dda;
- bod bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda, yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac yn frwdfrydig dros ddysgu;
- bod y cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda ac yn cynnig ystod dda o brofiadau dysgu diddorol;
- bod ethos gofalgwr rhagorol yn yr ysgol, gyda phob un o'r staff yn rhoi cymorth ac arweiniad eithriadol o dda i ddisgyblion; a
- bod y cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth yn arweinydd effeithiol iawn sydd wedi sefydlu diwylliant sy'n canolbwyntio'n glir ar wella safonau;
- bod y pennaeth yn cael cymorth da gan dîm ymroddgar o staff addysgu a chymorth;
- bod dadansoddiadau o ddata perfformiad o ystod o wahanol ffynonellau yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella safonau; a
- bod gweithdrefnau hunanarfarnu yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir.

Argymhellion

A1 Gwella defnydd disgyblion o rifedd ar draws y cwricwlwm ymhellach.

A2 Parhau i godi safonau ym medrau ymchwiliol disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

A3 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg trwy gydol y diwrnod ysgol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae dadansoddi data a monitro manwl yr ysgol yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn. Mae cyflawniad a chynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi yn dda. Maent yn galw i gof y dysgu blaenorol yn gadarn ac yn defnyddio'u dysgu mewn sefyllfaoedd newydd yn hyderus.

Mae medrau cyfathrebu disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwranddo. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu'r gallu i wrando'n ofalus ac yn astud ar staff ac ar ei gilydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn siarad yn hyderus iawn. Mae llawer ohonynt yn rhoi atebion ystyriol sy'n aml yn estynedig, gan ddefnyddio termau a geirfa addas.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn siarad yn frwdfrydig am lyfrau a'u hoff storïau. Maent yn trin llyfrau'n dda ac mae'r disgyblion mwy abl yn darllen testunau syml yn gywir. Gwnânt ddefnydd da o'u gwybodaeth am seiniau i'w helpu i ddarllen geiriau y maent yn eu gweld am y tro cyntaf. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hunangymhellol a hyderus. Defnyddiant ystod eang o strategaethau darllen. Mae llawer ohonynt yn darllen gyda rhuglder a mynegiant, gan roi sylw da i atalnodi. Mae pob un ohonynt yn siarad yn wybodus am ystod o awduron a'r mathau o lyfrau y maent wedi'u darllen.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n dda, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gyda rhuglder cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu llawysgrifen a'u defnydd o atalnodi sylfaenol. Gwnânt ddefnydd da o'u gwybodaeth am seiniau llythrennau i sillafu geiriau syml yn gywir. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu cynnwys eu hysgrifennu. Maent yn trefnu ac yn cyflwyno ysgrifennu dychmygus a ffeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa ddiddorol ac mae cyflwyniad eu gwaith, yn cynnwys eu llawysgrifen, eu sillafu a'u defnydd o atalnodi, yn datblygu'n dda.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda iawn i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi datblygu medrau meddwl da, ac fe gaiff y rhain effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd datblygedig; fodd bynnag, nid ydynt yn eu defnyddio'n effeithiol yn gyson mewn pynciau eraill.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau ymchwiliol yn dda. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn eu defnyddio'n hyderus. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd llunio casgliadau cywir o'u hymchwiliadau.

Mae disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae'r drefn o olrhain cynnydd disgyblion unigol yn dangos bod bechgyn a merched yn cyflawni cystal â'i gilydd, o gymharu â'u mannau cychwyn. Mae pob disgybl sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda iawn.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau siarad a gwranddo yn Gymraeg. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddilyn ystod o gyfarwyddiadau ac ymateb yn briodol i gwestiynau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus i gyfleu gwybodaeth bersonol ac yn cyflawni safonau da wrth ysgrifennu ystod o frawddegau syml yn Gymraeg. Mae disgyblion hŷn yn darllen testunau syml yn hyderus yn Gymraeg, gydag atalnodi a dealltwriaeth dda. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am y Gymraeg yn hyderus y tu allan i'r sefyllfa ystafell ddosbarth ffurfiol.

Yn 2012, mae canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg ar y lefelau disgwyliedig ac uwch ar y cyfan.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2 wedi bod yn amrywiol. Roedd canlyniadau yn 2012 yn well na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Roedd canlyniadau'r lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) mewn Saesneg ychydig yn is.

O gymharu â lefelau perfformiad cymharol yr ysgolion hynny y mae gan gyfran debyg o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae deilliannau'r ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf mewn Saesneg.

Yn 2012, cafodd cyfran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n trosglwyddo i'r ysgol tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2 effaith andwyol ar ganlyniadau'r ysgol.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn deall bod angen gwneud ymarfer corff yn rheolaidd ac am bwysigrwydd ffordd iach o fyw. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, ac maent yn hyderus bod unrhyw bryderon yn cael eu trin o ddifri, a bod yr ysgol yn delio â nhw yn gyflym ac yn deg. Mae bron pob disgybl yn siarad yn frwdfrydig am fywyd ysgol ac yn dangos lefelau uchel o ymglymiad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sylwgar, yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain ac yn dangos balchder yn eu gwaith.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn holi barn ac yn cyflwyno eu canfyddiadau ac yn gweithredu yn unol â nhw yn briodol. Maent yn cynrychioli eu cyfoedion yn llawn. Mae'r cyngor ysgol yn rhagweithiol ac wedi bod yn gyswllt gwerthfawr rhwng athrawon a disgyblion. Bu'r eco bwyllgor yn ddylanwadol o ran ennill gwobrau eco. Mae disgyblion eraill yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol addas, fel monitoriaid a chyfeillion iard ysgol, er enghraifft.

Mae ymddygiad yn dda iawn mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn barchus a chwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae datblygiad personol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn datblygu'n dda.

Mae presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar yn dilyn rhoi mentrau newydd ar waith.

Mae ffigurau presenoldeb 2010-2011, sydd ychydig dros 95%, yn well na chyfartaleddau'r awdurdod lleol, y teulu a Chymru gyfan.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae profiadau dysgu yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus, ac yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn mwynhau cyfleoedd cynyddol i ymchwilio i agweddau ar destun yr hoffent ei astudio'n fanylach. Mae disgyblion, er enghraifft, wedi ymchwilio i, a datblygu pecynnau croeso ar gyfer ymweliad eu hathro ag ysgol yn Ne Affrica.

Mae pob un o'r athrawon yn cydweithio'n effeithlon yn eu cynllunio i sicrhau bod disgyblion yn yr un grŵp blwyddyn, ond mewn dosbarthiadau gwahanol, yn ymdrin â'r un testunau. Mae'r fenter ddiweddar i wahanu bechgyn a merched ar gyfer gwersi Saesneg yn boblogaidd ymhlith disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau mewn llythrennedd, yn enwedig i fechgyn.

Mae llawer o gyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw eu defnydd o'u medrau rhifedd wedi'i ddatblygu digon eto.

Mae darpariaeth dda i ddatblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn gwersi ffurfiol. Caiff disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg am 25% o wersi.

Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ieithyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru mewn modd effeithiol, ac mae gan ddisgyblion wybodaeth dda am artistiaid o Gymru.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon, creadigol ac allgyrsiol eraill sy'n cyfoethogi eu dysgu. Mae ymwelwyr â'r ysgol a gwibdeithiau addysgol yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'r testunau y maent yn eu hastudio mewn modd effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy yn dda. Mae gan yr eco bwyllgor rôl weithredol o ran sicrhau bod pob disgybl yn deall pwysigrwydd mentrau i 'leihau, aildefnyddio ac ailgylchu'. Mae dealltwriaeth disgyblion o'r ffordd y mae pobl o wahanol wledydd yn dibynnu ar ei gilydd yn datblygu'n dda.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu'n dda ar y cyfan. Mae athrawon, yn ddieithriad, yn sefydlu perthynas waith dda gyda disgyblion, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion. Mae athrawon a staff eraill yn gweithio'n dda iawn fel tîm, sy'n sicrhau bod pob disgybl, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da.

Mae athrawon yn gwneud y dysgu'n ddiddorol trwy gynllunio gwersi sy'n ddychmygus ac sy'n datblygu gallu disgyblion i weithio'n annibynnol. Pan fydd ansawdd yr addysgu'n rhagorol, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae diben a deilliannau bwriadedig y gwersi yn glir, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn deall beth maent yn ei wneud a pham. Yn yr ychydig iawn o wersi y barnwyd eu bod yn ddigonol yn unig, mae trafodaethau dosbarth cyfan yn rhy hir, ac nid yw rhai plant yn ymddiddori neu'n glir ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o brofion ac asesiadau i olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth llafar da a buddiol i ddisgyblion. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu. Mae'r marcio yn gefnogol, ac yn rhoi syniad clir i ddisgyblion o ba mor dda y maent wedi gwneud, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella'u gwaith.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn effeithiol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'u cynnydd eu hunain a'r meysydd i'w gwella yn eu gwaith eu hunain.

Mae adroddiadau i rieni yn rhoi darlun clir o gyflawniadau eu plant ym mhob pwnc. Maent yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella mewn Saesneg, mathemateg a gyddoniaeth. Caiff rhieni gyfleoedd priodol i ymateb i'r adroddiadau.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu lefel ragorol o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion. Mae disgyblion a rhieni yn gwerthfawrogi amgylchedd diogel a gofalgar iawn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chytûn lle mae disgyblion ac oedolion yn parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau ei gilydd. Mae trefniadau hynod effeithiol ar waith i gefnogi lles disgyblion a ffyrdd iach o fyw, fel ymglymiad llawn staff, rhieni a disgyblion yn y fenter "wythnos iach". Caiff ymddygiad da ei werthfawrogi a'i annog, ac mae strategaethau eglur da ar waith i ddelio ag ymddygiad annerbyniol. Mae trefniadau rhagorol ar waith i ddelio â sylwadau homoffobig a hiliol. Mae rhieni a disgyblion yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r trefniadau hyn.

Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd proffesiynol allanol yn effeithiol i gynorthwyo unigolion. Mae profiadau dysgu da yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion. Mae llawer o ymweliadau addysgol wedi'u cynllunio'n dda sydd â themâu chwaraeon neu ddiwylliannol.

Mae darpariaeth ragorol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol ddulliau hynod effeithiol i nodi'n gynnar y disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae rhaglenni ymyrraeth a'r strategaethau a ddefnyddir i gefnogi'r disgyblion hyn yn hynod effeithiol. Mae lefelau rhagorol a pharhaus o gymorth ychwanegol i ddisgyblion sy'n gwneud cynnydd digon da i gael eu henwau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae pob disgybl yn parhau i wneud cynnydd da iawn. Mae cynlluniau addysg unigol yn eithriadol o fanwl ac yn cynnwys targedau clir a mesuradwy ar gyfer gwella. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud defnydd hynod effeithiol o ddata perfformiad i olrhain cynnydd a chynllunio cymorth. Ymgynghorir â rhieni yn rheolaidd ynglŷn â chynnydd ac anghenion parhaus eu plentyn.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gwbl gynhwysol. Mae'n rhoi pwyslais da ar gynhwysiant cymdeithasol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb yn effeithiol. Mae disgyblion yn dysgu'n dda am bwysigrwydd goddefgarwch a pharchu pobl eraill. Mae'r ysgol yn delio'n effeithlon a chyflym gydag unrhyw achosion o fwlio neu aflonyddwch.

Mae'r ysgol yn amgylchedd cyfforddus, glân, pleserus a gynhelir yn dda, sydd â digon o adnoddau i gyflwyno'r cwricwlwm a'r gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r amgylchedd dysgu yn gadarn ac ysgogol gydag arddangosiadau wal perthnasol a gwaith celf ysbrydoledig. Mae'r tir helaeth yn gaffaeliad i'r ysgol ac wedi cael ei addasu'n dda at amrywiaeth o ddibenion addysgol. Fodd bynnag, mae'r diffyg lle storio ar gyfer offer mawr a byrddau bwyta yn cyfyngu ar faint o le sydd ar gael ar gyfer gwersi dosbarth cyfan fel gymnasteg.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu arweinyddiaeth ddidwyll, ystyriol a phwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ysgol synnwyr clir o gyfeiriad a diwylliant sy'n ymdrechu am safonau uchel. Caiff gefnogaeth eithriadol o dda gan y dirprwy bennaeth ac uwch dîm rheoli effeithiol iawn. Mae system rheolaeth ddosbarthedig dda, sydd wedi annog arweinwyr pwnc a rheolwyr canol i ddatblygu eu rolau yn effeithiol. Caiff perfformiad ei reoli'n effeithiol, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at ansawdd da'r addysgu ac at welliannau yn safonau disgyblion.

Mae'r uwch dîm rheoli, dan arweinyddiaeth y pennaeth, yn gwneud defnydd da iawn o ddata i ddadansoddi a monitro perfformiad disgyblion. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol yn y broses hunanarfarnu i flaenoriaethu gweithgareddau yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn dda. Cânt adroddiadau ysgrifenedig manwl ac maent yn gwbl gyfarwydd ag ansawdd y ddarpariaeth addysgol a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Dyfarnwyd Gwobr Efydd Marc Safon Llywodraethwyr Cymru i'r corff llywodraethol, sy'n adlewyrchu trylwyredd eu prosesau llywodraethu.

Caiff polisïau a mentrau, yn cynnwys y rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, eu rhoi ar waith yn gyson. Mae gweithredu proses fedrus o ran disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill wedi codi'r safonau a gyflawnir mewn ysgrifennu creadigol mewn Saesneg yn llwyddiannus.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu'n effeithiol at nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r trefniadau monitro ac adolygu safonau yn flynyddol a gynhelir gan bob cydlynnydd pwnc yn fanwl iawn. Caiff data perfformiad ei ddadansoddi'n helaeth, ac mae targedau ar gyfer gwella wedi'u seilio ar ystod dda o dystiolaeth. Mae arolygon i ddisgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn cryfhau'r broses hunanarfarnu.

Mae cysylltiadau clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Caiff y meysydd i'w gwella yn y cynllun datblygu eu blaenoriaethu'n dda ac maent yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Mae defnyddio asesiadau parhaus ar gyfer disgyblion wedi galluogi staff i osod targedau heriol ond priodol ar gyfer gwella. Mae strategaethau gwella effeithiol wedi cefnogi tuedd ar i fyny mewn perfformiad dros y pedair blynedd diwethaf.

Caiff staff eu cefnogi gan ystod eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r rhaglen hyfforddi ar gyfer pob un o'r staff yn rhoi'r medrau a'r wybodaeth iddynt fod yn hynod effeithiol yn eu rôl. Mae defnyddio cymunedau dysgu proffesiynol yn yr ysgol wedi golygu bod grwpiau o staff addysgu a chymorth yn cydweithio'n dda iawn i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn effeithiol mewn ystod o rwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion eraill a phartneriaid. Mae'r ymglymiad hwn, er enghraifft, yn natblygiad parhaus y Cyfnod Sylfaen, yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o bartneriaethau strategol, sy'n hyrwyddo datblygiad addysgol a phersonol disgyblion yn hynod effeithiol. Mae partneriaeth yr ysgol gyda nifer o ysgolion lleol, yn cynnwys yr ysgol uwchradd leol, yn gryfder arbennig. Mae trefniadau pontio gyda'r ysgol uwchradd yn cynnwys ymweliadau o'r ddwy ochr a phrosiectau pontio y mae disgyblion yn dechrau arnynt ym Mlwyddyn 6 ac yn eu cwblhau pan fyddant yn yr ysgol uwchradd.

Mae'r pennaeth a'r uwch reolwyr wedi bod yn rhagweithiol yn hyrwyddo arferion cydweithio yn y clwstwr o ysgolion lleol, gan ganolbwyntio'n hynod o effeithiol ar agweddau ar addysgu, a chymedroli safonau. Maent wedi dangos medrau rheoli eithriadol o dda ynghyd â dealltwriaeth dda iawn o ddysgu wedi'i seilio ar fedrau. Mae'r mentrau hyn wedi cyfoethogi cwricwlwm yr ysgol ei hun ymhellach a rhannwyd y deilliannau gydag ysgolion ac ymarferwyr eraill. Mae cynllunio ar y cyd ag ysgolion lleol i "gau'r bwlch o ran rhywedd" yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion.

Mae ansawdd y partneriaethau gyda'r gymuned yn dda. Ysgol fro yw hon, ac mae grwpiau a chymdeithasau lleol yn gwneud defnydd da o gyfleusterau'r ysgol. Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus yn ymgysylltu â busnesau lleol yn ystod eu "hwythnos entrepreneuraidd" i weithio ochr yn ochr â'r disgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnig llawer o gyfleoedd dysgu ychwanegol i ddisgyblion ac yn cyfrannu'n hynod effeithiol at ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes.

Rheoli adnoddau: Da

Caiff adnoddau staffio ac ariannol yr ysgol eu rheoli'n dda a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi gwelliannau yng nghyflawniadau disgyblion. Mae digon o aelodau o staff addysgu a chymorth i fodloni anghenion disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau cymorth priodol ar gyfer disgyblion a chreu awyrgylch hapus, diogel ac ysgogol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i chyllideb ac unrhyw incwm ychwanegol i wella cyfleusterau, ansawdd ei darpariaeth a deilliannau disgyblion. Caiff cyllid ei ddyrannu'n effeithiol yn unol â blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd.

Mae adeiladau a thir yr ysgol yn cynnig amgylchedd cyfoethog ac ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae ansawdd ystafelloedd dosbarth yn yr awyr agored yn dda iawn, a chânt eu defnyddio'n helaeth ac mewn modd dychmygus.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried cynnydd a deilliannau'r rhan fwyaf o ddisgyblion a'r defnydd da a wneir o'r gyllideb.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn 2012, roedd safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, uwchlaw cymaryddion cenedlaethol.

O gymharu â'r lefelau perfformiad cymharol mewn ysgolion y mae canran debyg o'u disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd safonau'n dda. Roedd safonau yn y 50% uwch ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ac yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Ym mhob un o'r tri maes wedi'u cyfuno (dangosydd craidd y Cyfnod Sylfaen), roeddent yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd safonau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau cenedlaethol. O gymharu â pherfformiad ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ran prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer y tri phwnc wedi'u cyfuno. Roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% is ar gyfer gwyddoniaeth a mathemateg. Mae'r duedd gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod ar i fyny.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, perfformiodd merched yn well na bechgyn ar y lefelau uwch mewn Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 2, perfformiodd bechgyn ychydig yn well na merched mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r bwlch rhwng perfformiad cymharol bechgyn a merched wedi mynd yn llai ym mhob maes.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch (deilliant 6) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol a mathemateg uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, ond ychydig islaw cyfartaledd y teulu. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg islaw'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, mewn mathemateg a gwyddoniaeth, roedd perfformiad disgyblion uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, ond islaw cyfartaledd y teulu. Bu gwelliant yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch dros y pedair blynedd diwethaf ym mhob un o'r tri phwnc.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Holiadur i ddysgwyr

Llenwodd cant ac un o ddisgyblion yr holiadur i ddisgyblion.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan oedolion i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Dywed pob disgybl eu bod yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy i ofyn os ydynt yn cael eu gwaith yn anodd. Dywed pob disgybl eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Maent yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Maent yn cytuno bod llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu haddysgu i gadw'n iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Maent yn cytuno bod bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Nid yw chwarter o ddisgyblion yn cytuno gyda'r datganiad bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn yr ysgol yn fwy cadarnhaol yn eu hymatebion na dysgwyr mewn ysgolion eraill ledled Cymru.

Holiadur i rieni a gofalwyr

Llenwodd pedwar deg tri o rieni'r holiadur.

Mynegodd pob rhiant neu ofalwr a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn fodlon â'r ysgol ar y cyfan. Maent yn credu bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgynffwrddio'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol, a dywedant fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Maent yn cytuno bod pob un o'r staff yn trin y plant yn deg ac yn eu parchu. Maent yn teimlo bod pob un o'r staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. Maent yn credu bod yr addysgu'n dda ac yn teimlo bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da.

Mae pob un o'r rhieni'n teimlo bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol. Maent i gyd yn cytuno bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Teimla'r rhan fwyaf o rieni fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'i bod yn darparu ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys gwibdeithiau ac ymweliadau. Mae pob un o'r rhieni'n credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Maent yn cytuno bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a chyfrifol. Maent yn teimlo bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion penodol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n deall y gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, a byddent yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

Mae bron pob rhiant yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar

yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol a bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

At ei gilydd, mae rhieni yn yr ysgol yn fwy cadarnhaol yn eu hymatebion am yr ysgol na rhieni mewn ysgolion eraill ledled Cymru.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Carolyn Thomas	Arolygydd Cofnodol
Garth Higginbotham	Arolygydd Tîm
Susan Owen	Arolygydd Lleyg
Tim Newbould	Arolygydd Cymheiriaid
Gwyn Fleming	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.